Gair gan y Maer

Dyweodd y Maer y bu iddo fynychu Bore Coffi a chyfarfod a drefnwyd ar y cyd rhwng Liz Saville Roberts AS Dwyfor Meirionnydd a'r Groes Goch Brydeinig a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS).

Mae Camau Cadarn/'Positive Steps' yn brosiect partneriaeth genedlaethol rhwng y Groes Goch Brydeinig a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS). Mae'r gwasanaeth yn cefnogi unigolion i barhau i fyw'n annibynnol a gwella lles meddyliol ac ystywthder.

Roedd yn fore diddorol o sgwrsio a chanfod rhagor am y prosiect Camau Cadarn i unigolion dros 50oed.

Dywedodd y Mae rei fodwedi gofyn i'r Clerc estyn gwahoddiad i Tesni Roberts, Cysylltwr Cymunedol Cyngor Gwynedd i annerch y Cyngor Tref am ragor o syniadau rhyngweithio posib o fewn y dref. Credai'r Maer fod hyn yn cyd fynd a'r trywydd mae'r Cyngor yn dymuno ei ddilyn yn y dyfodol. Dywedodd… "fy ngobaith yw y bydd modd cynnal cyfarfodydd er budd trigolion y dref."

Eric Wyn Roberts
2ail Mai, 2019